Rydym ni yn rhan o'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Tîm Therapi Galwedigaethol yn cynnwys grŵp o Therapyddion Galwedigaethol cymwysiedig a Chymhorthwyr .

Pwrpas y gwasanaeth yw i hybu pobl anabl i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Rydym ni yn helpu pobl o bob oed gydag anableddau parhaol a sylweddol, waeth sut cafodd y rhain eu hachosi. Rydym ni yn cymhorthi pobl o bob oed gydag amrywiaeth o anableddau parhaol a sylweddol. Rydym ni hefyd yn gallu gweithio gyda pobl sydd yn byw mewn cartref gofal, neu bobl sydd yn dymuno gadael cartref gofal ac adennill eu hannibyniaeth gyda gweithgareddau bywyd bob dydd, er mwyn gallu byw yn eu cartrefi eu hunain.

Yn dilyn asesiad, gallwn ddarparu cyngor ac offer i ddefnyddwyr gwasanaeth. Gallwn hefyd gynnig addasiadau bychain neu fawr i'r cartref i alluogi unigolion a'u gofalwyr i fyw mor annibynnol a phosibl. Bydd y Therapydd Galwedigaethol yn ystyried eich anghenion fel uniogolyn, eich amgylchedd (y cartref a'r teulu) a'ch galwedigaethau. Cynnwys hyn sut yr ydych chi yn gofalu amdanoch eich hunan, beth yr ydych chi yn ei wneud yn eich amser hamdden ac unrhyw swydd neu gwrs addysg yr ydych yn ei wneud. Byddwn hefyd yn ystyried eich crệd, crefydd a'ch diwylliant.

**Beth yr ydym ni angen ei wybod/yn ei ddisgwyl gennych chi?**
Pan fyddwch yn cysylltu â ni, byddwn yn gofyn rhai cwestiynau i chi am unrhyw gyflwr meddygol yr ydych yn ddioddef ohono, y cyfleusterau sydd gennych yn eich cartref, y math o eiddo ac amgylchedd yr ydych yn byw ynddo, ac yn y blaen. Os mai ni yw'r bobl briodol i'ch helpu, bydd y wybodaeth yr ydych yn ei rhoi i ni yn cael ei drosglwyddo fel 'atgyfeiriad' at Uwch Therapydd Galwedigaethol. Bydd ef/hi yn blaenoriaethu eich achos yn unol â'ch anghenion, fel y gallwn benderfynu pa mor fuan y gallwn ymweld â chi. Mae'n rhaid i ni asesu'r bobl yr ydym yn ystyried i fod ậ'r risg fwyaf yn gyntaf. Oherwydd hyn, efallai bydd rhywfaint o oedi cyn y daw rhywun i'ch asesu.

**Meini prawf cymhwyso**

Mae ein meini prawf yn ein galluogi i sicrhau ein bod yn defnyddio ein adnoddau cyfyngedig i'r budd gorau posibl gan ddiwallu gofynion pobl sydd â'r risg mwyaf i'w hannibyniaeth yn y gymdeithas. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth darllenwch y daflen 'Pwy sy'n gallu cael help gan y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion?'

**Beth arall ddylwn i ei wybod**

Os oes ganddoch gwyn ysgrifennwch at -

Y Swddog Cwynion Statudol
Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol
Town Hall
Lloyd Street
Llandudno
LL30 2UP

**Diogelu Data**

Mae gennych hawl i weld y cofnodion yr ydym ni yn eu cadw amdanoch. Gofynnwch am ragor o fanylion gan Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Datganiad Cenhadaeth**

Rydym yn ceisio sicrhau bod help, gofal a chymorth ar gael i bobl gydag anghenion gofal cymdeithasol yng Nghonwy. Ein nộd yw gwneud ein gwasanaethau mor effeithiol a phosibl gan helpu pobl i fyw'n annibynnol drwy bartneriaethau creadigol gyda defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr, y cymunedau y maent yn byw ynddynt a staff adrannau ac asiantaethau eraill.

**Sut I gysylltu a ni**

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth neu i atgyfeirio eich hunan neu bobl eraill at y gwasanaeth, cysylltwch a Swyddogion Gofal Cwsmeriaid:

Tim Gofal Gwsmeriaid
Byngalo Canolfan Marl
ger Broad Street
Cyffordd Llandudno
LL31 9HL

Mae'r swyddogion ar gael rhwng 9 yb – 4.45 yp, dydd Llun I ddydd Iau, a 9yb – 4.15yp ddydd Gwener.

Ffon: 01492 576333
Ffacs: 01492 585890
Minicom: 01492 576906
E-bost: cco@conwy.gov.uk

Ffộn symudol i bobl trwm eu clyw gael anfon neges destun@ 07733 012 937

Mae'r daflen hon ar gael ar dập sain, mewn Braille ac mewn print bras. Os ydych angen y wybodaeth ar y daflen trwy un o'r ffurfiau hyn, ffoniwch 01492 577800.

Os ydych angen y wybodaeth uchod mewn unrhyw iaith arall heblaw y Gymraeg neu'r Saesneg, ceisiwn ein gorau i'w chyfieithu ar eich cyfer chi.